18 Hydref 2019

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Fel y gwyddoch, yn ddiweddar rydym wedi diweddaru ein dull o reoleiddio cymwysterau TGAU/TAG, gan gyflwyno Meini Prawf Cydnabod sy'n benodol i gymwysterau TGAU/TAG.

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, rydym wedi nodi'r angen i egluro ein gofynion o ran pa bynciau y gellir eu cynnig. Byddwch yn ymwybodol ein bod ar hyn o bryd yn rheoli'r ystod o bynciau y gellir eu dyfarnu fel TGAU/TAU Cymeradwy neu Ddynodedig, drwy ein Meini Prawf Cymeradwyo ac Amodau Cymeradwyo a'n Rheolau am Geisiadau i Ddynodi Cymwysterau.

Rydym yn cynnig ychwanegu Amod newydd at yr Amodau Safonol Ychwanegol fel bod yr holl gymwysterau TGAU/TAG yn cael eu cynnwys: sef Cymeradwy, Dynodedig ac Eraill a reoleiddir. Diben yr Amod arfaethedig hwn yw ei gwneud yn glir pa bynciau y gellir eu cynnig fel cymwysterau TGAU/TAG.

Byddai'r Amod newydd arfaethedig fel a ganlyn:

**Adran 3 – Amod Safonol Ychwanegol R – Pynciau ar gyfer cymwysterau TGAU/TAG**

ASC. R1 Dylai corff dyfarnu ond sicrhau argaeledd cymhwyster TGAU/TAG mewn pwnc:

(a) os yw Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi Meini Prawf Cymeradwyo pwnc-benodol neu reolau neu ofynion pwnc-benodol perthnasol[1] ar ei gyfer, neu sydd â chymhwyster Cymeradwy ar hyn o bryd;

(b) os yw rheolydd cymwysterau arall yn y DU wedi cyhoeddi rheolau neu ofynion pwnc-benodol perthnasol ar ei gyfer; neu

[1] Mae hyn yn cynnwys Egwyddorion Pwnc, Meini Prawf Pwnc ac Egwyddorion Dylunio.

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

(c) os yw wedi cael caniatâd fel arall i wneud hynny gan Cymwysterau Cymru.

Byddai'r Amod hwn yn berthnasol i bob cymhwyster TGAU/TAG a gydnabyddir gennym.

Wrth ddatblygu'r cynnig hwn, rydym wedi adolygu'r ystod gyfredol o gymwysterau TGAU/TAG a reoleiddir. Nid ydym yn rhagweld y bydd ein cynnig yn arwain at unrhyw effeithiau ar gyrff dyfarnu gan fod yr amod newydd arfaethedig yn disgrifio'r sefyllfa bresennol yn hytrach na gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r sefyllfa bresennol. Byddai'r holl bynciau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd yn parhau i gael eu caniatáu pe byddai'r Amod arfaethedig hwn yn cael ei gyflwyno, ac felly ni fyddai hyn yn effeithio ar ddyfarnu cymwysterau cyfredol.

Felly, rydym yn ymgysylltu â chi i ofyn am eich barn ar yr Amod ychwanegol arfaethedig. Yn benodol, hoffem glywed eich adborth ar y geiriad ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â gweithredu'r Amod yr hoffech i ni ei ystyried. Bydd unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud yn cael eu hystyried wrth wneud ein penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gosod yr Amod ychwanegol hwn.

A fyddech cystal ag anfon eich sylwadau erbyn 21 Hydref at:

polisi@cymwysteraucymru.org.

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn,
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

Ar ôl ystyried yr adborth a dderbyniwyd, ein bwriad yw cyhoeddi dogfen Amodau Safonol Ychwanegol ddiwygiedig ym mis Rhagfyr 2019 gyda'r Amod newydd yn gynwysedig, a fyddai'n dod i rym o'r dyddiad cyhoeddi.

Yn gywir,

Rachel Heath-Davies
Pennaeth Polisi Rheoleiddio